OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2557 (Cy.228) (C.107)

# TAI, CYMRU
# YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CYMRU
# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbed) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud - - 28 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 93(2)(b) a 94(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbed) (Cymru) 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*" ) yw 30 Medi 2004; a

(b) mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac Atodlenni iddi(**1**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn

**2.** Yn ddarostyngedig i'r arbedion yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar y dyddiad cychwyn—

(a) yn Rhan 2 (tai)—

(i) adran 13 (gwaharddebion yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fydd landlordiaid cymdeithasol penodol yn gwneud cais amdanynt);

(**1**) 2003 p. 38.
(**1**) 2003 p. 38.

(ii) adran 14 ac Atodlen 1 (diogelwch deiliadaeth: ymddygiad gwrthygymdeithasol) (tenantiaethau isradd) i'r graddau y maent yn rhoi'r pwer i wneud rheoliadau;

(iii) adran 16 (achosion meddiannu: ymddygiad gwrthgymdeithasol); a

(iv) adran 17 (datganoli: Cymru);

(b) yn Rhan 9 (pwerau amrywiol) adran 91 (adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**): pwer arestio sydd ynghlwm wrth waharddeb).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

28 Medi 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1972 p.70.

(**3**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

### Arbed

**1.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Bennod 3 o Ran 5 o Ddeddf Tai 1996 (b) gan adran 13 yn effeithiol mewn perthynas ag —

(a) unrhyw gais am waharddeb o dan adran 152, neu unrhyw gais y mae adran 153 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo, ac a ddyroddwyd cyn y dyddiad cychwyn; neu

(b) unrhyw waharddeb a roddir yn unol â'r cais hwnnw; neu

(c) unrhyw bwer arestio sydd ynghlwm wrth unrhyw ddarpariaeth merwn gwaharddeb; neu

(ch) unrhyw orchymyn llys arall a roddir, neu achos sy'n codi, mewn cysylltiad â'r cais hwnnw neu'r waharddeb honno.

**2.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Tai 1985(**4**) a Deddf Tai 1988(**5**) gan adran 16 yn effeithiol mewn perthynas ag unrhyw achos meddiannu ty annedd a ddechreuwyd cyn y dyddiad cychwyn.

**3.** Ni fydd adran 91 yn effeithiol mewn perthynas ag—

(a) unrhyw gais am waharddeb o dan adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**) a ddyroddwyd cyn y dyddiad cychwyn;

(b) unrhyw waharddeb a roddir yn unol â'r cais hwnnw.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mewn perthynas â Chymru, daw'r Gorchymyn hwn â rhai o ddarpariaethau Rhan 2 (Tai) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym, yn ddarostyngedig i'r arbedion yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 13 yn disodli adrannau 152 a 153 o Ddeddf Tai 1996 gan ddarpariaethau newydd sy'n caniatáu i awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac ymddiriedolaethau gweithredu tai i wneud cais am waharddebion yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â'u rheolaeth o'u stoc neu sy'n effeithio ar y rheolaeth honno.

Mae adrannau 14 a 15 yn caniatáu i landlordiaid cymdeithasol wneud cais am orchmynion israddio os bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r gorchymyn israddio yn dod â thenantiaeth ddiogel neu denantiaeth sicr tenant i ben a rhoi yn ei lle ffurf newydd ar denantiaeth isradd ac iddi lai o ddiogelwch deiliadaeth. Caiff adran 14 ac Atodlen 1 eu cychwyn yn awr i'r graddau ei bod yn rhoi pwer i wneud rheoliadau.

Mae adran 16 yn diwygio disgresiwn y llys pan fydd yn ystyried hawliadau am feddiannu ty annedd (a osodir ar denantiaeth sicr neu denantiaeth ddiogel) a wneir ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn sicrhau bod pwysau digonol yn cael eu rhoi i effaith unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol.

---

(**4**) 1985 p.68.
(**5**) 1988 p.50.
(**6**) 1972 p.70 .

Mae adran 17 yn sicrhau bod holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n codi o'r diwygiadau i'r Deddfau Tai a grybwyllwyd, i'r graddau eu bod yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'w cyflawni gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dwyn i rym, mewn perthynas â Chymru, adran 91 sy'n caniatáu i awdurdod lleol wneud cais am bwer arestio fod ynghlwm wrth unrhyw waharddeb a geir o dan adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r gwaharddeb hwnnw yn un sydd i wahardd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cynnwys arbedion sy'n ymwneud â'r diwygiadau i Ddeddfau Tai 1985, 1988 a 1996 ac a gychwynnwyd gan y Gorchymyn hwn.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn y tabl isod wedi cael neu yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Adran neu Atodlen* | *Dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 1 i 11 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 18 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 23 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 25 i 29 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 30 i 38 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 39(1) a (2) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 39(3) (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 39(3) (y gweddill) | 30 Ebrill 2004 | 2003/3300 |
| 39(4), (5) a (6) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 46 | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 53 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 54 | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 57 i 59 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 60 i 64 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 85(1), (2) a (3) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 85 (4) (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 85(4) (y gweddill) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 85(5) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 85(6) (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 85(6) (y gweddill) | 30 Medi 2004 | 2004/2168 |
| 85(7) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 85(8) | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 85(9), (10) ac (11) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |

| *Adran neu Atodlen* | *Dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 86(1) a (2) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 86(3) (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 86(3) (y gweddill) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 86(4), (5) a (6) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 87 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 88 (yn rhannol) | 30 Medi 2004 | 2004/2168 |
| 89(1), (2), (3) a (4) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 89(5) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 89(6) a (7) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 90 | 31 Gorffennaf 2004 | 2004/1502 |
| 92 (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 92 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |
| 92 (yn rhannol) | 30 Medi 2004 | 2004/2168 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 30 Medi 2004 | 2004/2168 |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 30 Medi 2004 | 2004/2168 |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/690 |

Mae darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn y tabl isod wedi cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Adran neu Atodlen* | *Dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 40 i 45 | 31 Mawrth 2004 | 2004/999 (Cy.105) |
| 47 i 52 | 31 Mawrth 2004 | 2004/999 (Cy.105) |
| 55 i 56 | 31 Mawrth 2004 | 2004/999 (Cy.105) |